

<u>Aelodau:</u>	Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (DGHTh) Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)
<u>Hefyd yn Bresennol:</u>	Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H) Ditectif Brif Arolygydd Steve Davies (SD) Ditectif Brif Arolygydd Ifan Charles (IC) Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MMS) Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)
<u>Ymddiheuriadau:</u>	Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh)
<u>Arsylwyr:</u>	Mrs Anne Williams, Swyddog Cymorth, SCHTh (AW)

CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/11/2015

Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
PAB 285	Darparu cynllun recriwtio a chadw swyddogion heddlu gwirfoddol, gan gynnwys proffil recriwtio manwl a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd Ionawr	Ar waith
PAB 286	Rhingyll Howells i gyfathrebu â SCHTh mewn perthynas â chysylltiad busnesau gwledig yn yr Arolwg Troseddau Busnes	
PAB 287	Yr Heddlu i roi mynediad i SCHTh i ddata trin galwadau 999 ac 101 drwy'r system Qlikview	Cwblhawyd
PAB 288	Adolygu data trin galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Chwefror	Ar waith
PAB 289	Yr Heddlu i adrodd ar effaith y broses recriwtio Cwnstablaid Gwirfoddol genedlaethol ar gyfraddau cadw	Disgwylir hyn ddiwedd Ionawr
PAB 290	Y Prif Arolygydd Steve Davies i gyfathrebu â Karys Thomas ynghylch proffil o anawsterau tystiolaethol o ran mynd ag achosion cam-drin domestig i'r llys	Cyfredol

Agorodd DGHTH y cyfarfod gan ddweud bod dau newid i'r agenda. Roedd y cyflwyniad ar adrodd am droseddau ar-lein bellach ar ffurf adroddiad, ac roedd y cyflwyniad Safe as Houses wedi'i ohirio i gyfarfod arall.

Cofnodion Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015 a Materion yn Codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir, ac ni chodwyd unrhyw faterion.

Adrodd am Droseddau Ar-lein

Roedd yr Heddlu wedi darparu adroddiad diweddarau cyn y cyfarfod, a rhoddodd y PG drosolwg ohono. Edrychodd yr Heddlu ar y rhaglen "Facewatch" gan ystyried ei fod yn arf defnyddiol ar gyfer busnes. Bu'n llwyddiannus yng nghanol trefi, fodd bynnag, roedd angen adolygiad pellach er mwyn pennu ei addasrwydd ar gyfer busnesau gwledig. Awgrymodd y PG bod cynrychiolwyr perthnasol o'r Heddlu a SCHTh yn trafod y posibilrwydd o gomisiynu gwasanaeth. Roedd DGHTH yn hapus i ystyried yr argymhelliad i archwilio i gyfleoedd comisiynu posibl.

Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 2 – Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed

Cyflwynodd SD ac IC yr adroddiad yn fanwl. Diolchodd DGHTH SD ac IC am adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd yn broffesiynol. Roedd maint y gwaith cadarnhaol a rhagweithiol a gyflawnwyd yn y maes hwn yn glir. Holodd y DGHTH sut fyddai'r adnoddau'n cael eu cydbwyso rhwng swyddogion arbenigol tra'n cynnal gallu ymateb a phlisma cymunedol effeithiol ar yr un pryd. Cydnabu'r PG y byddai hyn yn her allweddol a fyddai'n wynebu'r Heddlu yn y dyfodol a gwaith y tîm Gwario'n Ddoeth fyddai gwneud argymhellion i'r PG o ran sut i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan y CHTh er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth. Mae arbedion effeithlonrwydd a gyflwynwyd trwy welliannau diweddar mewn meysydd megis data symudol yn helpu i ddarparu ar gyfer y cynnydd o ran galw. Teimlai'r PG nad uned arbenigol ganolog oedd y dewis mwyaf priodol oherwydd daearyddiaeth HDP. HDP yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr, gyda'r boblogaeth isaf sy'n arwain at 2.8 swyddog fesul 10 milltir sgwâr. Mae gan Ddinas Llundain 6,800 swyddog fesul 10 milltir sgwâr, ac mae gan yr heddlu sydd â'r ddaearyddiaeth fwyaf heriol ar wahân i HDP 4.7. Golyga hyn fod yn rhaid i HDP ystyried yn ofalus sut y darperir gwasanaethau arbenigol, ac ar yr un pryd, darparu plisma cymunedol. Un opsiwn fyddai hyfforddi rhai swyddogion rheng flaen, gan ddarparu sgiliau arbenigol i'w galluogi i gyflwyno lefel gwasanaeth uwch a rhoi cyngor i'w goruchwylwyr heb fod yn rhan o dîm canolog. Roedd y PG yn ystyried bod y lefel gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr trosedd yn Nyfed-Powys o'r pwys mwyaf.

Cytunodd DGHTH bod plismona ardaloedd gwledig yn cyflwyno heriau gwahanol i'r rhai a wynebir mewn ardaloedd trefol. Awgrymodd DGHTH mai'r gwaith ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y misoedd i ddod fyddai canfod gwir gost plismona gwledig a'r heriau a wynebir, er mwyn bwydo hyn yn ôl i'r Swyddfa Gartref.

Holodd DGHTH pa un ai a oedd cyfleoedd i adolygu gwasanaethau wedi'u comisiynu i ategu'r adnoddau arbenigol sydd angen i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Roedd y PG yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol mapio'r meysydd y mae HDP yn ymdrin â nhw nawr a pha ofynion a ddisgwylir yn y dyfodol a'r ddarpariaeth gan wasanaethau a gomisiynir er mwyn nodi bylchau neu fylchau sydd ar ddod. Dywedodd SD fod rôl Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol yn hollbwysig, ond fod angen ehangu ar hyn. Mae rhaglen troseddwr cam-drin domestig wedi'i theilyngu gan fod y datrysiadau hyn ar gyfer diogelu bregusrwydd yn anfoddol ar gyfer blaengynllunio busnes yr Heddlu. Dywedodd y DGHTH y byddai adolygiad o'r gwasanaeth Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol yn cael ei gynnal cyn hir, a chrosawodd adborth gan yr Heddlu mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu yn y dyfodol yn dod o dan y flaenoriaeth o ddiogelu pobl sy'n agored i niwed.

Cwestiynodd y DGHTH pa effaith sydd gan y cynnydd o ran troseddau rhyw a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar lwyth achos MAPPA, a pha un a oedd y gallu'n bodoli i ymdrin â'r cynnydd. Dywedodd IC bod nifer y troseddwr rhyw cofrestredig wedi cynyddu 7 dros y flwyddyn ddiwethaf, ond roedd nifer y troseddwr treisgar wedi codi 96, a oedd yn cyflwyno mwy o effaith ar y gwasanaeth prawf. Disgwylir y byddai cynnydd sylweddol dros y bum mlynedd nesaf, a gan hynny, mae'n hanfodol cynllunio i sicrhau bod adnoddau priodol mewn grym.

Un cwestiwn a holwyd yn ystod un o ddiwrnodau Eich Llais y Comisiynydd oedd pa hyfforddiant troseddau casineb a ddarperir i swyddogion, a gan bwy. Dywedodd SD ei fod ar ddeall bod yr hyfforddiant yn eang iawn a thybiodd y gallai'r hyfforddiant fod yn cael ei ddarparu o fewn yr Heddlu. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei cheisio a'i hadrodd yn ôl i SCHTh.

Cam Gweithredu: Yr Heddlu i egluro pwy sy'n cyflwyno hyfforddiant troseddau casineb i swyddogion a chynnwys yr hyfforddiant hwnnw

Ceisiodd DGHTH farn y PG ar gydweithio gydag asiantaethau partner mewn perthynas â phrotocolau rhannu gwybodaeth. Dywedodd SD y dilynir Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a bod rhannu gwybodaeth effeithiol yn bodoli. Roedd yr ethos o "fentro rhannu" wedi'i ymsefydlu'n dda, yn arbennig mewn achosion diogelu plant. Dywedodd y PG bod angen parhau i arfer gwyliadwriaeth ddybryd, yn arbennig yng ngoleuni rhai o'r setliadau cyllid sy'n lleihau a dderbynnir gan asiantaethau eraill. Bydd angen nodi'r effaith ar y cyhoedd a mynd i'r afael â hyn yn unol â hynny. Roedd DGHTH yn ystyried y byddai angen i'r PG a'r CHTh drafod y mater gydag asiantaethau partner i nodi sut y gallai unrhyw doriadau sy'n cael eu gwneud i wasanaethau eraill effeithio ar HDP.

Ceisiodd DGHTH sicrwydd bod yr Heddlu'n hyderus fod digon o adnoddau mewn grym wrth y pwyntiau mynediad o fewn Dyfed-Powys i sicrhau fod HDP yn adnabod ac yn aflonyddu ar y rhai a allai fod eisiau defnyddio Dyfed-Powys fel y pwynt mynediad ar gyfer masnachu mewn pobl. Cadarnhaodd SD bod yr Heddlu'n ymwybodol o'r mater ond roedd gwaith yn mynd rhagddo i deall maint y broblem. Roedd SD yn ystyried bod yr adnoddau ar gael a bod gan HDP gwell dealltwriaeth o fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, ond nid oedd hi'n eglur pa un ai a oedd adnoddau bob tro'n ddigonol.

Holodd DGHTH sawl achos o drais ar sail anrhydedd neu anffurfio organau cenhedlu benywod oedd wedi digwydd yn HDP dros y 3 blynedd diwethaf, a pha un ai a oedd hyn yn adlewyrchiad cyffredinol o'r sefyllfa go iawn ar draws yr ardal heddlu. Dywedodd IC bod 22 achos posibl o drais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod a bod pob un wedi'i adolygu. Roedd y dysgu wedi'i rannu â Ditectif Arolygwyr. Roedd y canfyddiadau wedi dylanwadu ar bolisiau trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod yr Heddlu a oedd wedi drafftio ac yn disgwyl cadarnhad. Roedd gwaith yn digwydd i ganfod pa wybodaeth sy'n cael ei dal gan sefydliadau eraill mewn perthynas â'r troseddau hyn. Byddai'r cytundebau rhannu gwybodaeth a drafodwyd yn gynharach yn hollbwysig o ran derbyn y data anhysbys yn y dyfodol.

Mynegodd y DGHTH ei gefnogaeth lawn tuag at ymagwedd yr heddlu tuag at leihau nifer y plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Gofynnodd DGHTH os oes hi'n wir nad oedd llety diogel ar gyfer pobl ifainc yn Nyfed-Powys, ac os felly, beth oedd effaith hyn. Dywedodd IC fod y llety agosaf yng Nghastell-nedd, sy'n peri heriau i HDP, ond ystyriodd mai her ar gyfer Llywodraeth Cymru oedd hyn. Roedd IC yn credu nad llety diogel oedd yr ateb bob tro, a gellir cynnwys asiantaethau eraill i gefnogi'r plant i ddychwelyd adref neu gartrefi gofal â chymorth.

Trafododd y DGHTH archwiliad diweddar AHM i fregusrwydd, lle nodwyd bod angen i HDP wella. Ceisiodd DGHTH asesiad y PG o'r adroddiad, a pha gamau a oedd eisoes wedi'i rhoi mewn grym i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad. Hefyd, ceisiodd DGHTH sicrwydd bod dioddefwyr trosedd sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth ar gyfer yr heddlu ac yn siŵr o dderbyn gwasanaeth ardderchog gan HDP. Dyfynnodd y PG o'r adroddiad:

"Wrth raddio effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, barnodd AHM fod 12 heddlu yn dda, bod 27 angen gwella, a bod 4 heddlu yn annigonol. Ni farnwyd bod yr un heddlu'n rhagorol."

Mae'r adroddiad yn dweud bod gan HDP etheg gref o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, a arweinir gan ymagwedd ymarferol o dop yr Heddlu a chefnogaeth dda gan bartneriaid. Gwnaethant nodi feysydd ar gyfer gwella o ran gweithdrefnau trin galwadau 999 ac 101, gan nodi'r diffyg arbenigedd proffesiynol o ran ymchwilio i rai achosion cam-drin domestig, sef bod rhai achosion cam-drin domestig yn cael eu hymchwilio gan swyddogion nad oedd yn ditectifs arbenigol. Tynnodd y PG sylw at ffigurau perfformiad mewn perthynas â cham-drin domestig a ddarperir yn yr adroddiad, gan gymharu HDP

â'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr. Amlinellir y ffigurau hyn yn yr adroddiad isod, er hwylustod darllen.

	Cyfartaledd Cymru a Lloegr	Perfformiad HDP
Arestiadau (fesul 100 achos)	66	83
Cyfradd cyhuddo (% o'r holl droseddau a gofnodwyd)	16.6	23.8
Cyfradd cyhuddo cam-drin domestig (% o'r holl droseddau cam-drin domestig)	27.3	35.9
Cyfradd bodlonrwydd dioddefwyr (%)	83.8	87.4

Yn seiliedig ar yr ystadegau hyn, dywedodd y PG bod HDP yn anfon y swyddogion iawn i ymdrin ag achosion cam-drin domestig. Mynegodd y PG ei syndod na raddiwyd yr Heddlu'n dda o leiaf, gan gydnabod y byddent bob tro'n ceisio gwella. Roedd y PG yn ystyried fod pob achos nad yw'n cael ei riportio i HDP, neu achos nad yw'n arwain at ganlyniad cadarnhaol ar gyfer y dioddefydd gyda'r troseddwr yn cael ei dwyn i gyfiawnder, yn un yn ormod. Roedd adroddiad AHM yn affwysol o hen oherwydd cynhaliwyd yr arolygiad yn gynharach o lawer, ac mae llawer o'r gwaith a drafodwyd yn y cyfarfod yn rhan o'r cynllun gweithredu i gyflenwi yn erbyn yr adroddiad. Dywedodd y PG y dylai'r cyhoedd fod yn hyderus bod HDP yn rhoi dioddefwyr yn gyntaf. Awgrymodd y PG bod y ffigurau'n dangos bod dioddefwyr yn fwy hyderus i adrodd troseddau ac mae HDP yn ateb yr her i ymchwilio i bob un. Adleisiodd DGHTH ei fod yntau hefyd yn synnu at y radd o ystyried bod y testun pennawd yn awgrymu bod HDP yn perfformio'n well na llawer o heddluoedd eraill. Dywedodd y DGHTH bod yr adroddiad heddlu a'r atebion a ddarparwyd yn y cyfarfod yn cynnig llawer iawn o sicrwydd bod pobl sy'n agored i niwed ledled Dyfed-Powys yn derbyn lefel gwasanaeth uchel gan HDP.

Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 2

Rhoddodd DGHTH drosolwg o'r adroddiad, sy'n cynnwys trosolwg o'r holl wasanaethau a gomisiynir, y costau cysylltiedig â'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd gwaith yn digwydd er mwyn annog mwy o hunan gyfeiriadau i'r Cwtsh Cymorth, sy'n cynnig cymorth i ddiodeffwyr, gan fod y rhan fwyaf o gyfeiriadau gan HDP. Nodwyd bod cymorth Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol bellach yn cael ei estyn drwy'r llys a thu hwnt, waeth pa beth bynnag yw'r canlyniad, er mwyn ceisio lleihau nifer y diodeffwyr mynych. Roedd SCHTh wedi comisiynu gwasanaethau o gwmpas canolfannau trais ac ymosodiadau rhywiol (Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol), a dygodd DGHTH sylw i'r ffaith a godwyd yn adroddiad yr Heddlu bod yn rhaid i ddiodeffydd troseddau o'r fath sy'n blentyn deithio tu allan i'r ardal heddlu ar gyfer archwiliad. Er bod y DGHTH yn ystyried na ddylai hyn fod wedi digwydd, nid oes gan Ddyfed-Powys y gweithwyr arbenigol i gynnal yr archwiliadau. Roedd cynnig wedi'i lunio gan weithgor a arweinir gan Lywodraeth Cymru i symud pob Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i ganolfannau

rhagoriaeth yn Abertawe neu Gaerdydd, a allai arwain at gau'r cyfleuster yng Nghaerfyrddin. Mae'r CHTh dal yn gwbl ymroddedig i ddarparu gwasanaethau lleol i bobl sy'n agored i niwed a bydd yn parhau i ariannu Llwybrau Newydd i redeg y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghaerfyrddin. Yn ogystal, dywedodd DGHTh bod arian wedi'i dderbyn gan y Swyddfa Gartref i sefydlu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn Aberystwyth a'r Drenewydd. Ar hyn o bryd, mae offer addas yn cael ei osod yn y ddwy ganolfan. Bydd y ddarpariaeth hon yn lleihau'r trawma i'r dioddefydd ac yn lleihau amser teithio ar gyfer swyddogion. Dywedodd DGHTh y byddai'r ymagwedd tuag at gomisiynu'n parhau'r un fath ac y byddai darpariaeth leol yn cael ei blaenoriaethu lle bynnag y bo hynny'n bosibl, sy'n medru bod yn fwy costus ond sy'n caniatáu ymateb mwy effeithiol a chynt. Nid yw DGHTh yn credu ei bod hi'n deg bod yn rhaid i ddioddefydd bregus yn Nyfed-Powys wynebu taith hir er mwyn cael cefnogaeth sydd ar gael yn hawdd mewn mannau eraill. Rhaid i bob punt a fuddsoddir i wasanaeth wedi'i gomisiynu leihau'r galw ar HDP neu gynnig gwasanaeth cymorth arbenigol ategol y dylai HDP fod yn cynnig ei hun mae'n debyg. Cytunodd y PG bod y gwasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd wedi chwarae rôl sylweddol o ran cefnogi swyddogion HDP i helpu pobl sy'n agored i niwed, ac y byddai'n parhau i wneud hynny. Byddai bylchau o hyd yn y gwasanaethau a gyflwynir, ac wrth i ymagwedd HDP tuag at adnabod angen ddatblygu, bydd angen adolygu gwasanaethau a gomisiynir yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion newidiol a chymhlethdod y cymunedau y mae HDP yn eu plismona. Mae arbenigwyr o'r Heddlu a SCHTh wedi cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu manyleb gwasanaethau a gomisiynir, a dylent barhau i wneud hynny.

Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh

Cyflwynodd DGHTh yr adroddiad, gan dynnu sylw'n fras at y pwyntiau allweddol cyn gofyn y cwestiynau a gynhwysir o fewn yr adroddiad. Atebwyd y rhain, a byddant yn cael eu cyhoeddi o fewn yr adroddiad a'u diweddarau ar wefan y Comisiynydd.

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/12/2015		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	I'w symud yn ei flaen gan
PAB 291	Yr Heddlu i egluro pwy sy'n cyflwyno hyfforddiant troseddau casineb i swyddogion a chynnwys yr hyfforddiant hwnnw	SD
PAB 292	Yr Heddlu i rannu ymchwil ar Drais ar Sail Anrhydedd â'r CHTh (ymchwil i gynnwys data gan bartneriaid a phroffil testun)	IC